CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Gorffennaf 17, 2018 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 19, 2018

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 19, 2018

Eitem 10.d. Llythyr ateb (27/6/2018) oddi wrth Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd sylw yn cael ei roi i'r fatras.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (26/6/2018) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Oherwydd GDR mae angen rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw newid yn ein manylion fel unigolyn cyswllt, cyfeiriad, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gael eu gwybodaeth.

b. Llythyr (28/6/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd Coed Mwsoglog, Bryncoerdifor yn cael ei ailwynebu.

c. Llythyr (2/7/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Sadwrn, Medi 29, 2018 ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd am 9.30yb. Yn bresennol bydd Alun Davies AC (Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), Cyng Debbie Wilcox (Arweinydd WLGA) a dau aelod o Panel Adolygu Annibynnol.

ch. Llythyr (2/7/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn hysbysu swydd Swyddog Datblygu Gogledd Cymru. Angen ceisiadau cyn Gorffennaf 16, 2018.

d. Llythyr (27/6/2018) oddi wrth Swyddog Datblygu Plant, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent angen gwarchodwyr plant. Amgáu mae posteri i'w harddangos ar hysbysfwrdd.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (26/6/2018 yn rhoi gwybod bydd cyfarfod gyda chynghorau cymuned a thref dydd Iau, Hydref 4, 2018 am 6.30yh yn Plas Tan y Bwlch. Yr agenda fydd: diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol, cynllun Partneriaeth y Parc, prosiect LIFE, ymateb i Geisiadau Cynllunio.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (14/6/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod bydd dogfennau'r Cyngor ar gael ar 20/6/2018.

O adroddiad yr ymchwiliad roedd:

a. Methiant i sicrhau bod asesiad risg wedi cael ei adolygu'n rheolaidd.
b. Methiant i gadarnhau bod y gweithiwr wedi derbyn termau ac amodau clir o'i gyflogaetyh oherwydd diffyg cytundeb gyflogaeth.

Mae angen rhoi sylw i'r uchod a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

Anfonwyd y dogfennau ymlaen i BDO ar 23/6/2018

b. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2017 - Mawrth 31, 2018:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £251.53.

c. Llythyr (29/6/2018) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi manylion cyflog newydd y Clerc.

Taliad misol i'r Clerc: £97.08 (yn chwarterol £291.24)
Taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £24.20 (yn chwarterol £72.60).
Cyfanswm: 12 (£97.08 + £24.20) = £1,455.36 y flwyddyn. (Gweler Cofnodion Mai 15, 2018 Eitem e.)

d. Llythyr (8/7/2018) oddi wrth Cymdeithas Y Dydd. Maent angen gymorth ariannol.

Penderfynwyd rhoi rhodd o £50.00 iddynt wedi iddynt sefydlu papur newydd Y Dydd. Mae'r Y Dydd nawr wedi ei sefydlu. Gweler Cofnodion Hydref 10, 2017.

Maent hefyd yn gofyn am cymorth ariannol o £50 am y flwyddyn ariannol bresennol.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mehefin 2018: £1,137.10.

e. Balans yn y banc ar 29 Mehefin 2018: £5,399.82.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

10. Unrhyw fater arall

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc